PEMBROKE
TOWN WALLS
TRUST

# The Repair and Care of Heritage Stone Walls



Pembroke Town Walls Trust, Foundry House, Orange Way, Pembroke, SA71 4DR

CIO Registered in Wales No 1157626
pembroketwt@gmail.com
www.pembroketownwallstrust.org.uk

UK Government
Llywodraeth y DU

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund.



**The Town walls of Pembroke provide security, shelter and privacy. Nevertheless, proper repair and care is vital to ensure the historical evidence they contain is not lost or inadvertently destroyed.**

These walls are bound together using a mortar mix made of a binding agent of lime with an aggregate. Crucially this is softer and more porous than the masonry to allow any moisture absorbed into the wall to be released out. This prolongs the life of the masonry as the mortar fails first and can be more easily repaired and repointed.

**Observe your walls:**

Regularly check and photograph the wall looking out for:

- Condition of mortar joints, stone and failing capping stones.
- Crumbling faces or mortar failure
- Cracking or bulging.

**Action:**

If concerns are raised, then seek advice from:

- A suitably qualified person – a heritage stone mason
- Pembroke Town Wall Trust https://www.pembroketownwallstrust.org.uk/
- SPAB (Society for the Protection of Ancient Buildings) Technical Advice helpline https://www.spab.org.uk/advice

## What should I do if my wall is missing cappings, masonry is failing, or the pointing is missing or crumbling?

Seek advice on undertaking repairs, only where necessary, by a qualified person. SPAB make it very clear that unsatisfactory repointing cannot only be visually disturbing, but harmful to the actual fabric it is intended to protect.

## What should I do if my wall is bulging or leaning?

Talk to the Pembroke Town Wall Trust. A structure may need to be monitored by a structural engineer experienced in conservation to finally establish whether or not it is moving.

## Should a wall be cleaned?

Surface cleaning can cause considerable damage, accelerated decay and the loss of historical evidence such as graffiti or the remnants of a previous structure built against the wall. Surface cleaning is typically only considered suitable if the integrity of the wall is threatened by surface growth.





## Should ivy be cleared?

The removal of ivy from historic structures is a hotly debated subject. As with most conservation challenges there is no simple yes or no answer. A recent English Heritage study provided the following clear management recommendations – Ivy can perform a bio-protective role so:

- Don't just remove ivy 'because it's there' – take a close look at any ivy covered structure to see if the ivy is actually doing any damage. Clear a trial section if necessary.
- Be sure that any removal for structural or presentational reasons is justified.
- Ensure removal is not going to make things worse by exposing fragile fabric to the elements.
- If the ivy is actually rooted into the wall, rather than the ground at the bottom, removal is always the best option. Ivy is not a tree, but be under no illusion, its stems can reach the proportions of a small tree."

## If ivy removal is deemed necessary:

- Only remove an Ivy canopy out of the bird nesting season – nesting is from March to end of August.
- Remove a trial section to find the best method and to see if any damage to the wall is likely.
- Bear in mind that the youngest stems (usually near the top) are the most difficult to remove, older stems are often only very lightly attached.
- If money is not available for the whole job, start at the top and work down – cutting back in this way will cause the ivy to re-grow at the cut level, but does not encourage rooting into the wall.
- If stability of sections of wall are of concern, cutting back the arboreal growth to near the main stem will greatly reduce the 'windsail' effect.
- Never cut at the bottom and leave to die. This is likely to cause the ivy to try to root into a wall.

**A word of caution:**

Please note that Listed Building Consent is required for all works of demolition, alteration or extension to a listed building that affect its character as a building of special architectural or historic interest. This may include works to attached and curtilage structures. If there is any doubt over whether the works require LBC, please contact the local conservation officer first and ensure that a written response is received and retained.

**www.pembroketownwallstrust.org.uk**

PEMBROKE
TOWN WALLS
TRUST

# Atgyweirio a Gofalu am Furiau Cerrig Treftadaeth



Pembroke Town Walls Trust, Foundry House, Orange Way, Pembroke, SA71 4DR

CIO Registered in Wales No 1157626
pembroketwt@gmail.com
www.pembroketownwallstrust.org.uk

UK Government
Llywodraeth y DU

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund.



**Mae Muriau Tref Penfro yn darparu diogelwch, lloches a phreifatrwydd. Er hynny, mae'n hanfodol ein bod yn gofalu amdanynt a'u hatgyweirio er mwyn sicrhau nad yw'r dystiolaeth hanesyddol sydd ynddynt yn cael ei cholli neu ei dinistrio'n anfwriadol.**

Mae'r muriau hyn yn cael eu dal at ei gilydd gan ddefnyddio cymysgedd morter a wnaed o gyfrwng glynol o galch gydag agreg. Yn hollbwysig, mae hyn yn fwy meddal a hydraidd na'r gwaith maen, sy'n golygu bod unrhyw leithder sy'n cael ei amsugno i'r mur yn cael ei ryddhau. Mae hyn yn ymestyn oes y gwaith maen oherwydd morter sy'n methu gyntaf a gellir ei drwsio a'i ailbwyntio'n haws.

**Edrychwch ar eich muriau:**

Gwiriwch y mur a thynnwch luniau ohono'n rheolaidd, gan gadw llygad am:

- Gyflwr uniadau morter, cerrig a chapfeini sy'n methu
- Wynebau sy'n malurio neu fethiant morter
- Cracio neu folio

**Camau gweithredu:**

Os codir pryderon, ceisiwch gyngor gan:

- Unigolyn â chymwysterau addas – saer maen treftadaeth
- Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro https://www.pembroketownwallstrust.org.uk/
- Linell Gymorth Cyngor Technegol SPAB (y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol) https://www.spab.org.uk/advice

## Beth ddylwn i ei wneud os oes capfeini ar goll yn fy mur, os yw'r gwaith maen yn methu, neu os yw'r pwyntio ar goll neu'n malurio?

Ceisiwch gyngor ar wneud atgyweiriadau, pan fydd hynny'n angenrheidiol yn unig, gan unigolyn cymwysedig. Mae SPAB yn pwysleisio bod ailbwyntio anfoddhaol nid yn unig yn gallu bod yn annymunol yn weledol, ond fe all hefyd fod yn niweidiol i'r union adeiladwaith y bwriedir iddo ei amddiffyn.

## Beth ddylwn i ei wneud os yw fy mur yn bolio neu'n pwyso allan?

Siaradwch ag Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro. Mae'n bosibl y bydd angen i strwythur gael ei fonitro gan beiriannydd strwythurol sydd â phrofiad o gadwraeth i gadarnhau'n bendant p'un a yw'n symud ai peidio.

## A ddylai mur gael ei lanhau?

Gall glanhau arwyneb achosi difrod sylweddol, cyflymu dadfeilio a cholli tystiolaeth hanesyddol fel graffiti neu olion strwythur blaenorol a adeiladwyd yn erbyn y mur. Fel arfer, ystyrir bod glanhau arwyneb yn addas dim ond os yw tyfiant ar wyneb y mur yn bygwth ei gyfanrwydd.





## A ddylai iorwg gael ei glirio?

Mae tynnu iorwg oddi ar strwythurau hanesyddol yn bwnc llosg. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o heriau cadwraeth, nid oes ateb 'ie neu na' syml. Rhoddodd astudiaeth ddiweddar gan English Heritage yr argymhellion rheoli clir canlynol – gall iorwg gyflawni rôl fioamddiffynnol, felly:

- Peidiwch â thynnu iorwg ymaith dim ond 'oherwydd ei fod yno' – edrychwch yn ofalus ar unrhyw strwythur sydd wedi'i orchuddio gan iorwg i weld a yw'r iorwg yn gwneud unrhyw ddifrod mewn gwirionedd. Cliriwch ran i gael gweld os oes angen.
- Gwnewch yn siŵr fod cyfiawnhad dros gael gwared arno am resymau strwythurol neu gyflwyniadol.
- Gwnewch yn siŵr na fydd cael gwared arno'n gwneud pethau'n waeth trwy amlygu adeiladwaith bregus i'r elfennau.
- Os yw'r iorwg wedi'i wreiddio yn y mur, yn hytrach nag yn y ddaear ar y gwaelod, mae'n well cael gwared arno bob tro. Nid coeden yw iorwg, ond peidiwch â chael eich twyllo, gall ei goesynnau gyrraedd maint coeden fach.

## Os ystyrir bod angen tynnu iorwg ymaith:

- Tynnwch ganopi iorwg ymaith y tu allan i dymor nythu adar yn unig – mae'r tymor nythu'n para o fis Mawrth tan ddiwedd mis Awst.
- Tynnwch ran ohono ymaith yn gyntaf i ddod o hyd i'r ffordd orau ac i weld a oes unrhyw ddifrod i'r mur yn debygol.
- Cofiwch mai'r coesynnau ieuengaf (sy'n agos i'r top fel arfer) yw'r rhai mwyaf anodd eu tynnu ymaith. Yn aml, bydd coesynnau hŷn wedi'u cysylltu'n ysgafn iawn yn unig.
- Os nad oes digon o arian ar gael ar gyfer y dasg gyfan, dechreuwch ar y top a gweithiwch i lawr – bydd tocio yn y modd hwn yn achosi i'r iorwg ailddyfu ar lefel y toriad, ond nid yw'n annog gwreiddio i'r mur.
- Os oes pryder ynglŷn â sefydlogrwydd rhannau o'r mur, bydd tocio'r tyfiant coedol yn agos i'r prif goesyn yn lleihau'r effaith 'hwylio' yn fawr.
- Peidiwch byth â'i dorri ar y gwaelod a'i adael i farw. Bydd hyn yn debygol o achosi i'r iorwg geisio gwreiddio mewn mur.

**Gair o rybudd:**

Sylwch fod angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer yr holl waith dymchwel, newid neu ymestyn ar adeilad rhestredig sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai hyn gynnwys gwaith ar strwythurau cwrtil cysylltiedig. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â ph'un a oes angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y gwaith, cysylltwch â'r swyddog cadwraeth lleol yn gyntaf a gwnewch yn siŵr eich bod yn cael ymateb ysgrifenedig ac yn ei gadw. Bydd angen ymgynghori â Cadw ynglŷn ag unrhyw waith arfaethedig ar elfen o'r muriau sy'n Heneb Gofrestredig.